# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

**2017 dccc 2**

## RHAN 3

TYBACO A CHYNHYRCHION NICOTIN

## PENNOD 1

YSMYGU

*Arwyddion*

### 17 Arwyddion: mangreoedd di-fwg

(1) Rhaid i berson sy'n meddiannu mangre ddi-fwg neu sy'n ymwneud â rheoli mangre ddi-fwg sicrhau bod arwyddion yn cael eu harddangos yn y fangre honno yn unol â rheoliadau o dan yr is-adran hon.

(2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) wneud darpariaeth ynghylch sut y mae'r arwyddion i gael eu harddangos a chânt bennu gofynion y mae rhaid i'r arwyddion gydymffurfio â hwy (er enghraifft, gofynion o ran cynnwys, maint, dyluniad, lliw neu eiriad).

(3) Caiff rheoliadau o dan yr is-adran hon ddarparu i ddyletswydd sy'n cyfateb i'r un a grybwyllir yn is-adran (1) mewn perthynas—

(a) â mangreoedd a drinnir fel pe baent yn ddi-fwg yn rhinwedd adran 13,

(b) â cherbydau a drinnir fel pe baent yn ddi-fwg yn rhinwedd adran 15,

gael ei gosod ar berson, neu berson o ddisgrifiad, a bennir yn y rheoliadau.

(4) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) neu (3) gynnwys darpariaeth ynghylch yr arwyddion sydd i gael eu harddangos mewn mangreoedd, ardaloedd o fangreoedd neu gerbydau sydd, yn rhinwedd rheoliadau o dan adran 13(5), 15(3)(d) neu 16, i gael eu trin fel pe na baent yn ddi-fwg, ond a fyddai fel arall yn ddi-fwg o dan y Bennod hon neu yn rhinwedd y Bennod hon.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Adran 17 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 03 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(5) Mae person sy'n methu â chydymffurfio â'r ddyletswydd yn is-adran (1), neu unrhyw ddyletswydd gyfatebol mewn rheoliadau o dan is-adran (3), yn cyflawni trosedd.

(6) Mae'n amddiffyniad i berson sydd wedi ei gyhuddo o drosedd o dan yr adran hon ddangos—

(a) nad oedd y person yn gwybod, ac na ellid bod wedi disgwyl yn rhesymol iddo wybod, fod y fangre yn ddi-fwg (neu, yn ôl y digwydd, fod y man neu'r cerbyd i gael ei drin fel pe bai'n ddi-fwg),

(b) nad oedd y person yn gwybod, ac na ellid bod wedi disgwyl yn rhesymol iddo wybod, nad oedd arwyddion sy'n cydymffurfio â gofynion yr adran hon yn cael eu harddangos yn unol â gofynion yr adran hon, neu

(c) ei bod, ar seiliau eraill, yn rhesymol i'r person beidio â chydymffurfio â'r ddyletswydd.

(7) Os yw person sydd wedi ei gyhuddo o drosedd o dan yr adran hon yn dibynnu ar amddiffyniad yn is-adran (6), ac y dygir tystiolaeth sy'n ddigonol i godi mater mewn cysylltiad â'r amddiffyniad hwnnw, rhaid i'r llys gymryd bod yr amddiffyniad wedi ei fodloni oni bai bod yr erlyniad yn profi y tu hwnt i amheuaeth resymol nad yw wedi ei fodloni.

(8) Mae person sy'n euog o drosedd o dan yr adran hon yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

(9) Ni chaiff rheoliadau o dan yr adran hon wneud darpariaeth mewn cysylltiad â mangre a ddefnyddir i unrhyw raddau fel annedd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 17 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 126(2)**

**I2** A. 17 mewn grym ar 29.9.2020 at ddibenion penodedig gan O.S. 2020/1048, **ergl. 2(1)(d)**

**I3** A. 17 mewn grym ar 1.3.2021 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2021/202, **ergl. 2**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Adran 17 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 03 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

– specified provision(s) amendment to earlier commencing S.I. 2017/949, art. 3 by S.I. 2017/967 art. 2